# Gwasanaeth Safleoedd Cartrefi mewn Parciau – Amddiffyn pobl a lleoedd

## Canllaw cryno i Wasanaeth Safleoedd Cartrefi mewn Parciau Cyngor Torfaen

### Gallwch ddisgwyl i ni....

- Ddarparu gwasanaeth gorfodi ar draws Torfaen, yn ystod oriau swyddfa arferol, gan archwilio safleoedd Cartrefi mewn Parciau lleol, ymateb i gŵynion ac ymholiadau, cynnig cyngor a chymryd camau gorfodi yn ôl yr angen.
- Ymchwilio i gŵynion am safleoedd Cartrefi mewn Parciau, ymweld â safleoedd yn ôl yr angen a chymryd camau gorfodi lle bo hynny'n briodol.
- Darparu gwasanaeth gyda'r hwyr ac ar benwythnosau i ymdrin â digwyddiadau mawr ac achosion brys eraill.
- Rhoi gwybodaeth a chyngor i berchnogion a rheolwyr safleoedd Cartrefi mewn Parciau lleol i'w helpu i gydymffurfio â'r gyfraith, amddiffyn eu cwsmeriaid a chyrraedd safonau da.
- Cynghori'r rheiny sy'n ein ffonio am y gwasanaethau yr ydym yn eu cynnig ac unrhyw gostau.
- Sicrhau bod ein swyddogion yn gwrtais ac yn foesgar wrth ddelio â chwsmeriaid a rhoi gwybodaeth i chi am y gwaith yr ydym wedi ei wneud.
- Ymateb i ymholiadau a chwynion yn unol â'n safonau corfforaethol.

### Helpwch ni drwy..........

- Riportio unrhyw broblemau sy'n codi i reolwr eich safle a pherchnogion y safle yn y lle cyntaf, a hynny'n ysgrifenedig os yn bosibl, gan roi
    - Disgrifiad clir o'r broblem a'r hyn ddylid ei wneud i unioni'r sefyllfa yn eich barn chi.
    - Cyfnod rhesymol o amser iddynt i ymateb ac i unioni eich problem.
- Gofyn am gadarnhad eu bod wedi derbyn eich adroddiad ac eglurhad o fwriad y perchnogion wrth ddelio â'r materion hyn ynghyd ag amserlen ar gyfer gwneud hynny.
- Cysylltu â ni os na fydd y problemau'n cael eu datrys o fewn cyfnod rhesymol o amser, gan nodi
    - Eich enw, eich cyfeiriad a'ch manylion cyswllt (nodwch efallai na fyddwn yn gallu ymchwilio'n llawn i gŵynion dienw)
    - Disgrifiad clir o'r broblem a beth ddylid ei wneud i unioni'r sefyllfa yn eich barn chi, a
    - Manylion unrhyw gyfathrebu rhyngoch chi a rheolwr/perchennog y safle ynglŷn â'r mater hwn, gyda chopïau o unrhyw ohebiaeth os yn bosibl.

**Disgwyliwn i'r perchnogion:**

1 Gydnabod eu bod wedi derbyn pob cwyn, a hynny'n ysgrifenedig os yn bosibl.

2 Amlinellu'r hyn y byddant yn ei wneud ynghylch y mater a godwyd, ynghyd ag amserlen weithredu.

3 Wedi cwblhau'r gwaith, dweud wrth y preswylydd a'r awdurdod lleol a rhoi crynodeb o'r camau a gymerwyd.

4 Dweud wrth y Gymdeithas Preswylwyr Gymwys a'r cyngor mewn da bryd am unrhyw waith mawr neu welliannau y bwriedir eu gwneud ar y safle.

**Opsiynau Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen:**

1 Byddwn yn rhoi cyfle rhesymol i berchennog y safle i unioni'r cam, ond byddwn yn ymchwilio i unrhyw faterion sydd heb gael eu datrys, y tynnwyd sylw'r perchnogion atynt ac sydd heb gael sylw o fewn cyfnod rhesymol o amser neu mewn ffordd resymol.

2 Pan fo'n addas, byddwn yn mynd ati i gymryd y camau mwyaf priodol er mwyn sicrhau bod y mater yn cael ei ddatrys o fewn cyfnod rhesymol o amser. Mae ein hopsiynau gorfodi yn cynnwys:

<u>Gwneud dim byd</u>.
Efallai na fydd yn addas i ni gymryd camau ffurfiol, gan ddibynnu ar natur y mater, ac efallai y byddwn yn gweithio gyda'r perchnogion er mwyn datrys y mater yn anffurfiol. Trwy wneud hynny, fel arfer mae'r canlyniad yn well ac yn gyflymach i bawb.

<u>Rhoi Hysbysiad Cosb Benodedig</u>.
Gellid defnyddio hysbysiad cosb benodedig i gosbi elfennau llai fel:

- methu â gwaredu sbwriel
- diffyg cynnal a chadw mewn ardaloedd cymunol, gan gynnwys porfa, llwybrau, coed ayb.
- goleuadau annigonol o amgylch y safle

Gellir cyhoeddi hysbysiad cosb benodedig pan fydd digon o dystiolaeth dderbyniol i gefnogi erlyniad.

<u>Cyflwyno hysbysiad cydymffurfio.</u>
Lle'r ydym o'r farn fod perchennog y safle yn methu â chydymffurfio ag amod yn nhrwydded y safle, neu ei fod wedi methu yn barod, gallwn gyflwyno hysbysiad cydymffurfio i berchennog y safle. Rhaid i'r hysbysiad hwn restru'r camau y mae angen eu cymryd, o fewn cyfnod penodedig o amser, er mwyn cydymffurfio â gofynion trwydded y safle. Fel arfer, cyn cyflwyno unrhyw hysbysiad cydymffurfio, byddai'r awdurdod lleol wedi sicrhau bod perchennog y safle yn gwybod am unrhyw achos o dorri amodau'r drwydded ar y safle ac wedi rhoi cyfle iddo i unioni'r cam.

<u>Cymryd camau brys</u>.
Pan fydd risg dybryd i iechyd a diogelwch unrhyw un ar y safle ac nid yw perchennog y parc ar gael i gymryd camau ar unwaith (neu mae'n gwrthod gwneud hynny) mae gennym y pŵer i gymryd camau brys i gael gwared ar y risg.

3 Mewn argyfwng, gall yr awdurdod gymryd camau ar unwaith heb hysbysu'r perchnogion. Os yw preswylydd yn teimlo bod yna fater brys, dylai gysylltu'n uniongyrchol â'r awdurdod trwy public.health@torfaen.gov.uk neu 01633 648009 a chymryd camau rhesymol i ddweud wrth y perchnogion ei fod wedi cysylltu â ni.

**<u>Manylion cyswllt defnyddiol</u>**

Mr Franklyn Bonner
Rheolwr Safle
E-bost: manager@hillparkhomes.co.uk